Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Sant Baruc

Stryd Sant Baruc
Ffordd Y Mileniwm
Y Barri
Bro Morgannwg
CF62 5AT

Dyddiad yr arolygiad:  Hydref 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Sant Baruc

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymraeg Sant Baruc |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bro Morgannwg |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Categori 3 Ysgol Cyfrwng Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | dd/b |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 337 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 199 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 82 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 7.4% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 1.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 20.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2010 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 08/05/2018 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 13/10/2025 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae disgyblion a staff yn parchu ei gilydd yn dda. Mae hyn yn un o gryfderau'r ysgol ac yn sicrhau bod disgyblion yn hapus yn yr ysgol, yn ymddwyn yn dda ac yn gwneud eu gorau. Maent yn teimlo'n ddiogel yno, ac yn gwybod bod rhywun yno y gallant siarad â nhw pan maent yn gofidio am rywbeth. Mae gan ddisgyblion feddwl uchel o'r pennaeth, sy'n arwain yr ysgol yn effeithiol ac yn disgwyl iddynt wneud eu gorau er mwyn llwyddo hyd orau eu gallu.

Mae athrawon yn datblygu medrau disgyblion yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd, eu medrau rhifedd a'u cymhwysedd digidol. Mae hyn yn cynnwys y rheini y mae tlodi yn effeithio arnynt a'r rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Mae athrawon yn deall beth maent am i ddisgyblion ei ddysgu, ac maent wedi cynllunio cwricwlwm diddorol, eang a phwrpasol sy'n eu galluogi i wneud hyn yn effeithiol. Mae sesiynau dysgu yn ddiddorol ac yn annog disgyblion i ganolbwyntio a llwyddo yn eu tasgau. Ym mwyafrif y dosbarthiadau, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n adeiladu ar waith blaenorol disgyblion ac yn sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd da. Ond yn y lleiafrif o ddosbarthiadau, nid yw athrawon yn disgwyl digon gan y disgyblion, sy'n golygu nad ydynt bob amser yn gwneud y cynnydd gorau posibl. Gan weithio gyda rhieni ac eraill, mae staff yn rhoi cymorth effeithiol i ddisgyblion ag ADY. Maent yn eu hasesu'n gyson i sicrhau eu bod yn paratoi'r gweithgareddau gorau ar eu cyfer.

Er bod gan yr ysgol ystod o bwyllgorau plant, mae staff yn arwain gormod ohonynt sy'n golygu nad yw medrau arwain disgyblion wedi datblygu digon. Mae trefniadau i wneud yn siŵr bod disgyblion yn trosglwyddo'n hyderus i'r ysgol uwchradd pan ddaw'r amser iddynt wneud hynny yn llwyddiannus iawn.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1. Parhau i fireinio'r addysgu i sicrhau bod disgwyliadau'r holl athrawon yn gyson uchel

A2. Datblygu rolau arwain annibynnol disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae bron bob disgybl yn hapus yn dod i'r ysgol, ac yn ymddwyn yn barchus a charedig at ei gilydd ac oedolion. Maent yn barod iawn i gyfrannu at ddiwylliant cyfoethog yr ysgol, ac yn falch o'u hunaniaeth Gymreig. Maent yn teimlo'n ddiogel yno, gan wybod bod staff ar gael bob amser i ymateb i unrhyw bryderon sydd ganddynt.

Un o brif nodau'r ysgol yw sicrhau bod disgyblion yn credu yn eu gallu eu hunain ac yn llwyddo i gyflawni'n hyderus yn yr hyn a wnânt. Rhoddir pwyslais ar lwyddo, nid yn unig yn academaidd, ond hefyd fel unigolion hyderus a thosturiol, sy'n barod i wneud gwahaniaeth cadarnhaol yn eu cynefin. Mae hyn yn seiliedig ar arwyddair yr ysgol, sef 'Credu, Cyflawni, Llwyddo'.

Mae'r pennaeth, gyda chefnogaeth gref y dirprwy dros dro, wedi datblygu diwylliant addysgol cadarn, ethos cynhwysol a chyfeiriad strategol clir ar gyfer yr ysgol, sy'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar wella dysgu a lles disgyblion mewn amgylchedd Cymreig. Mae'n gosod a chyfleu disgwyliadau uchel ar gyfer staff, disgyblion a hi ei hun ac yn ystyried baich gwaith a lles cydweithwyr yn barhaus, gan ddosbarthu cyfrifoldebau staff yn synhwyrol i sicrhau bod y ddarpariaeth yn effeithiol.

Mae llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol ac yn dal arweinwyr i gyfrif am yr hyn sy'n digwydd yno. Maent bob amser yn ystyried lles y staff ac yn sicrhau bod diwylliant cadarnhaol o ddiogelu yn bodoli yn yr ysgol. Maent hefyd yn sicrhau bod arweinwyr yn mynd i'r afael yn llwyddiannus â blaenoriaethau cenedlaethol fel codi presenoldeb, gwella addysgu a dysgu, a datblygu'r Gymraeg.

Mae athrawon yn datblygu medrau disgyblion yn drefnus a llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd Cymraeg a Saesneg, eu medrau rhifedd a'u cymhwysedd digidol. Mae hyn yn cynnwys y rheini y mae tlodi yn effeithio arnynt a'r rheini sydd ag ADY. Mae disgyblion yn aml yn cymhwyso'u medrau yn hyderus mewn sefyllfaoedd go iawn. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn gwneud cawl, gan lunio rysáit, cofnodi cyfarwyddiadau, dosbarthu llysiau, eu pwyso a'u mesur.

Mae'r berthynas waith gynhaliol sy'n bodoli rhwng disgyblion a staff yn gryfder ac yn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad da a chyfranogiad cadarnhaol y rhan fwyaf o ddisgyblion i'w dysgu. Mae athrawon yn deall beth maent am i ddisgyblion ei ddysgu trwy ymgynghori â nhw a'u rhieni. Yna, maent yn cynllunio cwricwlwm diddorol, eang a phwrpasol sy'n gyfrwng iddynt wneud hyn yn effeithiol. Mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gyfoethog o'u treftadaeth ddiwylliannol, amrywiaeth a hunaniaeth leol a'r byd ehangach. Er enghraifft, maent yn dysgu am enwogion Cymru gan gynnwys hanes pobl ddu

adnabyddus, ac yn dathlu'r gymuned leol trwy efelychu gwaith celf yn seiliedig ar 'Y Barri'. Mae gweithgareddau fel hyn hefyd yn cefnogi ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cyflwyno gweithgareddau difyr sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn dda. Maent yn datblygu'r dysgu ar gyflymder addas ac yn ysgogi disgyblion i ddyfalbarhau a llwyddo yn eu tasgau. Ym mwyafrif y dosbarthiadau, lle mae addysgu ar ei orau, mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu pwrpasol sy'n adeiladu'n uniongyrchol ar fedrau blaenorol disgyblion ac yn sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd cadarn. Fodd bynnag, yn y lleiafrif o ddosbarthiadau, mae disgwyliadau athrawon yn anghyson. Yn y dosbarthiadau hyn, nid yw cynnydd disgyblion cystal ag y gallai fod.

Mae staff yn asesu disgyblion yn effeithiol, gan olrhain eu cynnydd yn rheolaidd. Mae hyn yn eu galluogi i ganfod y camau nesaf iddynt. Mae llawer o athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu pwrpasol i alluogi disgyblion i adnabod eu cryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella. Maent yn rhoi adborth effeithiol iddynt, sy'n galluogi'r rhan fwyaf i wella'u gwaith yn hyderus. Gan weithio mewn partneriaeth â rhieni ac asiantaethau allanol, mae staff yn cydlynu cymorth effeithiol i ddisgyblion ag ADY. Mae eu prosesau asesu yn gadarn, ac yn galluogi athrawon a chymorthyddion i ddarparu cefnogaeth briodol wedi'i thargedu i fynd i'r afael â'u hanghenion penodol. Er bod gan yr ysgol ystod o bwyllgorau plant, sy'n cynrychioli disgyblion o amrywiol oed, gallu a chefndir, mae gan staff dueddiad i'w gor-arwain. O ganlyniad, nid yw medrau arwain disgyblion wedi eu datblygu'n llawn.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau hynod effeithiol i wella presenoldeb. Trwy gyfathrebu'n rheolaidd â nhw, maent yn sicrhau bod rhieni'n deall disgwyliadau a thargedau clir yr ysgol ac yn cydymffurfio â nhw. O ganlyniad, mae'r cyfraddau presenoldeb wedi gwella'n sylweddol dros amser ac maent yn uwch na chyfraddau cenedlaethol a lleol.

Ynghyd ag arweinwyr eraill, mae'r pennaeth yn gwerthuso gwaith yr ysgol yn llwyddiannus ac yn gweithredu ei phrosesau gwella yn effeithiol. Er enghraifft, yn dilyn twf sylweddol yn nifer y disgyblion a staff ers symud i adeilad newydd ychydig yn ôl, sylweddolwyd bod angen mireinio'r dulliau addysgu i fynd i'r afael â'r angen. Ar y cyd â'r dirprwy dros dro, lluniodd raglen dysgu proffesiynol gynhwysfawr ac effeithiol i athrawon, sydd bellach yn dechrau dylanwadu'n gadarnhaol ar safonau disgyblion.

Mae arweinwyr yn gwerthuso perfformiad staff yn hynod effeithiol, ac wedi llunio 'siarter staff' i'w cynorthwyo â'r dasg o ganfod y gefnogaeth orau iddynt ac i'w hannog i fod yn falch o'u hymdrechion. Mae'r siarter hon wedi cael effaith gadarnhaol ar arferion addysgu'r staff ac ar ddysgu disgyblion mewn amser byr iawn.

### Ciplun: Defnyddio siarter staff i hwyluso’r weithdrefn gwerthuso perfformiad

Mae’r siarter staff yn seiliedig ar werthoedd craidd fel proffesiynoldeb, parch a charedigrwydd. Mae staff yn ymrwymo i gynnal y safonau uchaf ym mhopeth a wnânt. Wedi’u harwain gan y gwerthoedd hyn, mae arweinwyr wedi creu amgylchedd diogel, cefnogol a llwyddiannus i bob aelod o gymuned yr ysgol. Y siarter hon yw sail gweithdrefn gwerthuso perfformiad staff ac mae’n gosod sylfaen gadarn i’w gwaith. Caiff y gefnogaeth i staff ei theilwra’n briodol a, lle bo angen, cânt eu mentora a’u cymell i wella’u harferion proffesiynol. Rhoddir pwyslais buddiol ar yr arfer yn hytrach na’r person.

Mae’r ysgol yn cydweithio’n effeithiol ag ysgolion y clwstwr i sicrhau bod eu trefniadau pontio yn addas ac yn cynnig arweiniad a chymorth i ddisgyblion i’w paratoi’n drylwyr ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu. Mae’r profiadau hyn yn lleihau eu pryder ac yn datblygu eu hyder academaidd.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/12/2025